Ysgol Cybi

Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion / *Schools Data Breach Policy*

(Fersiwn 2, Hydref 2021 / *Version 2, October 2021*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn gan holl staff ysgolion a chontractwyr os oes digwyddiad diogelwch data yn digwydd. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw ddata personol a chategori arbennig a ddelir gan yr ysgol.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy sets out the procedure to be followed by all school staff and contractors if a data breach takes place. This policy applies to all personal and special category data held by the school.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Ionawr 2021 / *January* 2021	Polisi newydd / *New policy.*	
F2/*V2*	Hydref 2021 / *October 2021*	Newid cyfeiriadau at GDPR i UK GDPR a mân newidiadau / *Change reference*	

		to GDPR to UK GDPR and minor changes	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Hydref 2023 / *October* 2023
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen:
Document: Templed polisi ar y weithdrefn i'w dilyn os oes digwyddiad diogelwch data mewn ysgol. / *Policy template on the procedure to be followed if a data breach takes place within the school.*

Cyfrifoldeb:
Responsibility: Cyfrifoldeb llywodraethwyr a Pennaeth yr ysgol yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion dan y *Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018. / It is the responsibility of the school governors and Headteacher to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with the requirements under the* UK General Data Protection Regulations (UK GDPR) *and the* Data Protection Act 2018.

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn gan yr ysgol a sut y bydd yn cydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu data yn achos digwyddiad diogelwch data. Mae'n sicrhau dull cyson ac effeithiol o reoli digwyddiadau diogelwch data ac yn sefydlu strwythur ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau o'r fath.

Mae'r ysgol wedi ei hymrwymo'n llawn i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data ac yn sicrhau ei bod yn cwrdd â'i gofynion cyfreithiol, statudol a rheoliadol dan yr *UK GDPR*. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn syth i leihau'r effaith ar unigolion; er mwyn lliniaru risgiau cysylltiedig ac i atgyweirio unrhyw ddifrod.

Disgwylia'r ysgol i'w holl staff fewnosod ymarferion diogelwch ac atal yn eu gwaith dyddiol i sicrhau y diogelir gwybodaeth, ac mae'n rhaid iddynt gymryd y camau priodol i ddiogelu unrhyw wybodaeth.

Bydd yr ysgol yn ymgynghori ac yn ymofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiadau, problemau, pryderon neu gwestiynau ynglŷn â digwyddiadau diogelwch data.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer gweithwyr yr ysgol a'r sawl sy'n gweithio ar ran yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol a chontractwyr sydd gan fynediad i ac/neu sy'n prosesu gwybodaeth yr ysgol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth bersonol a chategori arbennig a ddelir gan yr ysgol.

Mae'n ymwneud â gwybodaeth a ddelir ym mhob fformat, gan gynnwys, ond ddim wedi'w gyfyngu i, bapur, electronig, clywedol a gweledol. Mae'r ysgol yn cadw gwybodaeth bersonol, gan gynnwys copïau caled a meddal, ac yn defnyddio systemau gwybodaeth amrywiol sy'n cadw data personol, sydd oll yn gymwys i'r polisi hwn.

Mae digwyddiadau diogelwch data yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi eu cadarnhau neu amheuaeth o ddigwyddiadau.

3. Cyfrifoldebau

3.1. Corff Llywodraethu Ysgol
Mae'r corff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am:

- monitro cydymffurfiad ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol ynglŷn â'r polisi yma;
- sicrhau bod yr ysgol yn gallu tystiolaethu cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth diogelu data.

3.2. Pennaeth (ac/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)
Mae'r Pennaeth ac/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau:

- bod proses ar waith i ddiogelu'r holl wybodaeth bersonol a chategori arbennig yn yr ysgol;
- bod proses gadarn ar waith i ganfod ac adnabod digwyddiadau diogelwch data; i ymchwilio ac asesu digwyddiadau gan gynnwys risgiau ac adrodd a hysbysu o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data;
- bod camau'n cael eu cymryd yn syth i leihau effaith digwyddiadau diogelwch data ac i benderfynu ar y camau gweithredu priodol a'r adnoddau sydd eu hangen i gyfyngu effaith digwyddiadau diogelwch data;
- bod *Ffurflenni Ymchwilio i Ddigwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion* yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosib; yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chywir a'u bod yn cael eu rhannu'n syth â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion;
- bod cofnod canolog o'r holl ddigwyddiadau diogelwch data yn cael ei gadw gyda *Log Digwyddiadau Diogelwch Data;*
- bod y ffigyrau blynyddol ynglŷn â'r cyfanswm o ddigwyddiadau diogelwch data sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol yn cael eu cyflwyno i gorff llywodraethu'r ysgol ac i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion;
- bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau diogelwch data blaenorol a bod cynlluniau gweithredu'n cael eu gweithredu er mwyn newid a gwella gweithdrefnau ac ymarferion lle bod angen;
- bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cael gwybod am yr holl fanylion ynghylch y digwyddiad ac yn prif bwynt cyswllt i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wrth ddelio â digwyddiadau diogelwch data;
- bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r polisi hwn; yn ymwybodol o'r broses pan fydd digwyddiad diogelwch data a bod staff yn cynorthwyo ag ymchwiliadau fel bod angen.

3.3. Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion
Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- fod yn brif bwynt cyswllt i'r ysgol ar gyfer adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data/achosion agos;
- hysbysu a chynghori ysgolion ar eu rhwymedigaethau o ran digwyddiadau diogelwch data;
- creu ac adolygu gweithdrefnau, polisïau, canllawiau a thempledi digwyddiadau diogelwch data yn rheolaidd;
- darparu cyngor ac arweiniad i'r ysgol ynglŷn ag unrhyw fesurau angenrheidiol i ymatal, lliniaru a mynd i'r afael â digwyddiadau diogelwch data;
- cwblhau Rhan C o'r Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion i ddarparu argymhellion ynglŷn ag adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data i'r ICO;
- darparu cyngor a chefnogaeth i'r ysgol ynglŷn â hysbysu trydydd bartïon am ddigwyddiadau diogelwch data;
- gwneud y penderfyniad a oes angen adrodd ar y digwyddiad diogelwch data i'r ICO;
- hysbysu'r ICO o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data adroddadwy;

- hysbysu unigolion a effeithir os yw digwyddiad diogelwch data yn debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid;
- cefnogi'r ysgol mewn perthynas â gwersi a ddysgwyd a chreu cynllun gweithredu er mwyn newid a gwella gweithdrefnau ac ymarferion lle bo angen;
- casglu gwybodaeth gan y Pennaeth ynglŷn â'r cyfanswm o ddigwyddiadau diogelwch data sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol a chadw *Log Digwyddiadau Diogelwch Data* ar gyfer pob ysgol.

3.4. Yr Holl Staff yn yr Ysgol
Mae'r holl staff a gyflogir gan neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth a staff cefnogi busnes yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn:

- ymgyfarwyddo a chydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn;
- adrodd yn syth ar unrhyw ddigwyddiadau gwirioneddol, amheuol, bygythiol neu botensial o ddigwyddiadau diogelwch data i'r Pennaeth ac/neu i'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol;
- cynorthwyo ag ymchwiliadau yn ôl yr angen, yn arbennig os oes angen cymryd camau gweithredu brys i atal difrod pellach.

Os oes gan staff unrhyw ymholiadau, dylent drafod y rhain â'r Pennaeth; y swyddog sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol neu'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

4. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Mae gan yr ysgol ddyletswydd orfodol i sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu a'i brosesu yn unol â'r *Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinoly y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a'r *Ddeddf Diogelu Data 2018.*

Mae *Deddf Diogelu Data 2018* yn darparu ar gyfer rheoleiddio prosesu (defnyddio) gwybodaeth ynglŷn ag unigolion, gan gynnwys derbyn, cadw a defnyddio'r fath wybodaeth.

Mae'r *UK GDPR* yn nodi y dylid prosesu gwybodaeth bersonol *"mewn ffordd sy'n sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu'n briodol, gan gynnwys amddiffyn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac amddiffyn rhag colled, dinistr neu ddifrod damweiniol, drwy ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol."*

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr ICO.

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion; Canllaw Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion* a *Polisi Prosesu Data Ysgolion.*

Mae'r holl bolisïau, dogfennau a thempledi perthnasol ar gael ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

5. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, derbyn, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, cadw, diwygio, addasu, newid, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, cael gwared â gwybodaeth, ei defnyddio neu gwneud unrhyw beth â hi.
Rheolydd data	Y bobl neu'r sefydliadau sy'n pennu'r pwrpasau dros brosesu data personol, ac ym mha fodd y caiff ei brosesu. Mae gan y rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu ymarferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Yr ysgol yw'r rheolydd data.
Proseswyr data	Yn cynnwys unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (heblaw am y sawl sy'n gyflogedig gan y rheolydd data). Gall proseswyr data gynnwys cyflenwyr sy'n ymdrin â data personol ar ran yr ysgol.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef neu hi.
Systemau Gwybodaeth	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
Cywirdeb	Cadw'r wybodaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn ddilys.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.
Asesiad Risg	Adnabyddiad a dadansoddiad o risgiau i amcanion busnes y sefydliad.
Effaith	Beth fyddai canlyniadau'r risg pe bai'n digwydd. Effaith yn cael ei ystyried fel un sy'n cael effaith uniongyrchol neu effaith yn y dyfodol.
Tebygolrwydd	Pa mor debygol yw'r risg o ddigwydd – ansicrwydd, siawns a thebygolrwydd.
Rheolaeth	Mesur sy'n addasu risg.
Bygythiad	Achos potensial o ddigwyddiad dieisiau, y gall arwain at niwed i system neu sefydliad.
Anawdurdodedig	Heb hawl cyfreithlon.
Ffugenwau	Y broses lle prosesir gwybodaeth bersonol mewn ffordd na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gadwir ar wahân ac yn amodol ar fesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli gwybodaeth bersonol i unigolyn a ellir ei adnabod.

Gwybodaeth Trydydd Parti	Trydydd parti yw rhywun nad yw'n rheolwr data, yn brosesydd data nac yn wrthrych i'r data.
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Yr ICO yw corff annibynnol y DU (awdurdod goruchwylio) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch problemau, cael gafael ar wybodaeth bersonol gan sefydliad, neu os oes pryderon ynghylch sut mae sefydliad wedi ymdrin â gwybodaeth - os yw'r wybodaeth yn anghywir, wedi'i cholli neu ei datgelu i rywun arall. Adroddir am achosion o dorri data sy'n risg uchel i unigolion i'r ICO.

6. Digwyddiad Diogelwch Data

Digwyddiad diogelwch data yw digwyddiad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu anawdurdodedig neu fynediad at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall gan yr ysgol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau diogelwch data yn cynnwys:

- colli neu ddwyn data neu offer y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei storio arno e.e. gwybodaeth neu offer TG (gliniaduron, tabledi, ffonau symudol, dyfeisiau sy'n cynnwys data personol fel cofion bach);
- gwall dynol fel data'n cael ei rannu gyda derbynnydd anfwriadol drwy e-bostio gwybodaeth i gyfeiriad e-bost anghywir; gwybodaeth bersonol yn cael ei gadael mewn lleoliad ansefydlog; uwchlwytho gwybodaeth bersonol i wefan neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol;
- mynediad heb awdurdod at wybodaeth bersonol neu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio naill ai gan aelod o staff neu drydydd parti gan gynnwys rheolaethau mynediad amhriodol, gan arwain at gyfrifon defnyddwyr yn cael eu cyfaddawdu, sydd yna'n arwain at fynediad heb awdurdod at ddata;
- methiant offer neu systemau TG (gan gynnwys caledwedd a meddalwedd) sy'n arwain at golli data neu anargaeledd data a gadwir arno;
- difrodi, dinistrio neu golli data personol; newid neu ddileu data personol yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon (e.e. oherwydd methiant cyfarpar neu wall dynol);
- colli data neu offer drwy ddigwyddiadau naturiol nas rhagwelwyd fel tân neu lifogydd;
- ymosodiadau bwriadol ar systemau TG a seiberfwlio fel hacio, firysau, sgamiau *"phishing"* neu haint drwgwedd;
- lle ceir gwybodaeth drwy dwyllo aelod o staff;
- torri mewn i fynediad/diogelwch adeiladau corfforol;
- newidiadau anarferol neu heb reolaeth i'r system;
- storio a/neu waredu offer TG yn amhriodol.

Mae tri chategori o ddigwyddiadau diogelwch data:

- **digwyddiad cyfrinachedd** - lle datgelir data personol neu le ceir mynediad ato yn anawdurdodedig neu'n ddamweiniol;

- **digwyddiad cywirdeb** – lle mae data personol yn cael ei newid yn anawdurdodedig neu'n ddamweiniol;
- **digwyddiad argaeledd** – lle mae colled mynediad at, neu ddinistr i ddata personol yn ddamweiniol neu'n anawdurdodedig.

Gall digwyddiad diogelwch data o bosib cael ystod o effeithiau anffafriol arwyddocaol ar unigolion, y gall arwain at drallod emosiynol ac/neu ddifrod corfforol, materol neu anfaterol. Gall y rhain gynnwys:

- coll rheolaeth dros eu data personol;
- cyfyngiadau ar eu hawliau;
- anffafriaeth;
- lladrad neu dwyll hunaniaeth;
- colled ariannol;
- gwrthdroad anawdurdodedig o ffugenw;
- difrod i enw da;
- coll cyfrinachedd data personol yr amddiffynnir gan gyfrinachedd proffesiynol;
- unrhyw anfantais economeg neu gymdeithasol i'r unigolion hynny.

Er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau diogelwch data gymryd lle, bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- ei holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu data;
- y polisïau a'r gweithdrefnau priodol wedi eu gweithredu a'u gorfodi'n llawn;
- rheolyddion technegol priodol ar waith;
- rheolyddion trefniadol priodol ar waith;
- risgiau yn cael eu rheoli'n ddigonol;
- gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau diogelwch data.

Dylid cymryd gofal i ddiogelu'r math hwn o wybodaeth bersonol, i sicrhau na chaiff ei newid (un ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol), ei golli, ei ddwyn nac yn cael ei rhoi yn y dwylo anghywir, a bod ei dilysrwydd a'i chywirdeb yn cael ei chynnal bob amser.

Mae'n bwysig bod yr ysgol yn gallu adnabod digwyddiadau diogelwch data; i asesu'r risg i unigolion ac yna hysbysu os oes angen. Mae'n rhaid i'r ysgol fod â gweithdrefnau cadarn ar waith i adnabod, ymchwilio ac adrodd yn fewnol ar ddigwyddiadau diogelwch data i allu gwneud hyn.

7. Cyfyngiant ac Adfer

Nid ymateb cychwynnol yn unig i ymchwilio ac ymatal y sefyllfa fydd ei angen pan fydd digwyddiad diogelwch data yn digwydd, bydd hefyd angen cynllun adfer sy'n cynnwys, lle bo'n briodol, cyfyngiant ar ddifrod.

7.1. Ymchwilio i Ddigwyddiad Diogelwch Data
Mae'n rhaid i'r unigolyn cyntaf sy'n darganfod/derbyn hysbysiad o ddigwyddiad diogelwch data neu 'ddigwyddiad agos' roi gwybod i'r Pennaeth/yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu

data yn yr ysgol yn syth. Os yw'r digwyddiad diogelwch data yn digwydd neu'n cael ei ddarganfod y tu allan i oriau gwaith arferol, dylai hyn ddechrau cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Mae'n bwysig adrodd ar 'ddigwyddiadau agos' yn ogystal â digwyddiadau gwirioneddol, fel y gall yr ysgol gymryd y cyfle i adnabod unrhyw wersi a ddysgwyd.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion fel y prif bwynt cyswllt i adrodd ar yr holl ddigwyddiadau diogelwch data/'digwyddiadau agos' cyn gynted â phosib a dim hwyrach na 24 awr ar ôl dod yn ymwybodol o'r digwyddiad diogelwch data. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion, hyd yn oed os oes ansicrwydd ynglŷn ag a yw'n ddigwyddiad diogelwch data ai peidio.

Pan ddarganfyddir digwyddiad diogelwch data gan sefydliad sy'n prosesu data ar ran yr ysgol (prosesydd data), mae'n rhaid iddynt hysbysu'r ysgol heb oediad diangen h.y. cyn gynted ag y daw'r prosesydd yn ymwybodol o'r digwyddiad. Mae'n rhaid adnabod pob digwyddiad diogelwch data a'u hadrodd i'r ysgol, waeth beth yw maint y digwyddiad a'r niwed neu'r potensial o niwed.

Dylai'r Pennaeth adnabod aelod priodol o staff i arwain ar ymchwilio i'r digwyddiad. Dylai gael cefnogaeth ddigonol ac adnoddau priodol.

7.2. Cyfyngu ar Effaith y Digwyddiad Diogelwch Data
Mae'n rhaid i'r ysgol ganfod a yw'r digwyddiad diogelwch data yn dal i ddigwydd. Os ydyw, mae'n rhaid cymryd camau yn syth i leihau effaith y digwyddiad.

Mi fydd angen sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu/dychwelyd ac ei dinistro yn syth fel cam cyntaf pan mae'r ysgol yn dod yn ymwybodol o'r digwyddiad.

Bydd y camau gweithredu priodol a'r adnoddau sydd eu hangen i gyfyngu effaith y digwyddiad yn cael eu penderfynu. Bydd angen cymryd unrhyw fesurau angenrheidiol i ymdrin, cyfyngu a lliniaru'r digwyddiad diogelwch data yn ogystal ag unrhyw gamau adfer neu adennill os oes angen. Mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar gwmpas ac effaith y digwyddiad diogelwch data. Gall camau gynnwys:

- cau system i lawr;
- ynysu neu gau proses;
- hysbysu staff perthnasol yn yr ysgol;
- ceisio adennill offer sydd ar goll;
- cysylltu â'r Gwasanaeth Dysgu neu Wasanaethau Cyngor perthnasol eraill fel eu bod wedi eu paratoi ar gyfer unrhyw ymholiadau posib;
- cysylltu â thîm cyfathrebu'r Cyngor fel y gallent baratoi i ymdrin ag unrhyw ymholiadau gwasg;
- defnyddio ffeiliau wrth gefn i adfer data coll/wedi ei ddifrodi/wedi ei ddwyn;
- newid unrhyw godau mynediad neu gyfrineiriau yn syth os yw'r digwyddiad yn cynnwys unrhyw godau mynediad neu gyfrineiriau.

Mae sefydlu pwy sydd angen eu hysbysu o'r digwyddiad diogelwch data ar y pwynt hwn yn angenrheidiol, ac adnabod sut y gallent gynorthwyo â'r broses gyfyngiant.

8. Asesu'r Risgiau

Yn ogystal â sefydlu graddfa ac achos y digwyddiad diogelwch data, dylai'r ymchwiliad ystyried y risgiau i'r:

- unigolion (y sawl a gollwyd eu gwybodaeth);
- yr ysgol;
- y Cyngor.

Mae'n bwysig asesu'r risgiau y gall fod ynghlwm â'r digwyddiad diogelwch data gan ystyried y canlyniadau anffafriol posib i unigolion; pa mor ddifrifol neu sylweddol yw'r rhain a pa mor debygol ydynt o ddigwydd.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y pwyntiau canlynol:

- y math o wybodaeth sydd ynghlwm;
- sensitifrwydd yr wybodaeth;
- pa amddiffyniadau sydd ar waith (e.e. amgryptio);
- beth sydd wedi digwydd i'r wybodaeth;
- p'run ai a ellir defnyddio'r wybodaeth yn anghyfreithlon neu'n amhriodol;
- faint o bobl a effeithir arnynt;
- pa fath o unigolion sydd wedi eu heffeithio;
- pa niwed y gall ddigwydd i'r unigolion hyn;
- p'run ai a oes canlyniadau ehangach i'r digwyddiad diogelwch data.

9. Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad Diogelwch Data Ysgolion

Bydd angen cwblhau *Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad Diogelwch Data Ysgolion* heb oediad diangen er mwyn adrodd ar y digwyddiad diogelwch data. Cynhwysir arweiniad ar gwblhau'r ffurflen ymchwilio yn y *Canllaw Digwyddiad Diogelwch Data Ysgolion.* Mae'r ffurflen a'r canllaw ar gael ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Mae'r *Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad Diogelwch Data Ysgolion* yn darparu cofnod ysgrifenedig o'r broses ymchwilio i ddigwyddiad diogelwch data. Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen pryd bynnag y mae **data personol wedi ei gyfaddawdu** fel bod gan ysgolion dystiolaeth o'r camau a gymerodd i liniaru.

Bydd y ffurflen yn annog yr ysgol i ganfod data pwy oedd ynghlwm â'r digwyddiad diogelwch data; yr effaith bosib ar y gwrthrych data a pha gamau pellach sydd angen eu cymryd i liniaru'r sefyllfa.

Mae'n bwysig bod y ffurflen hon yn cael ei chwblhau'n gywir fel y gellir ystyried ffeithiau ac amgylchiadau'r digwyddiad yn llawn ac fel y gellir cymryd camau cadarnhaol i leihau ac i liniaru'r effeithiau i unigolion a'r ysgol.

Mae tair rhan i'r ffurflen hon:

- Dylai'r swyddog ymchwilio gwblhau a llofnodi **Rhan A**;
- Mae **Rhan B** wedi ei chyflwyno i gael ymateb y Pennaeth/aelod o'r Uwch Dîm Rheoli a fydd yn gallu adnabod gwelliannau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol;
- Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sydd i gwblhau **Rhan C** er mwyn darparu argymhellion parthed adrodd i'r ICO.

10. Hysbysiad o Ddigwyddiadau Diogelwch Data

Gall hysbysu pobl a sefydliadau bod digwyddiad diogelwch data wedi digwydd fod yn elfen bwysig yn y strategaeth rheoli digwyddiad diogelwch data. Dylai hysbysiad fod â phwrpas clir.

10.1. Asesu'r Angen i Adrodd yr Wybodaeth i Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
Bydd rhaid i'r ysgol a'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb y risg i hawliau a rhyddid pobl yn dilyn y digwyddiad diogelwch data. Os yw digwyddiad diogelwch data'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion, mae'n ddigwyddiad adroddadwy y bydd rhaid i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion adrodd i'r ICO, heb oediad diangen, ond ddim hwyrach na **72 awr** ers dod yn ymwybodol o'r digwyddiad diogelwch data. Os oes angen cymryd mwy na 72 awr i adrodd, mae'n rhaid darparu rhesymau dros yr oediad.

Yn dilyn cwblhau asesiad, os yw'n annhebygol bod risg i hawliau a rhyddid unigolion, ni fydd rhaid i'r ysgol adrodd ar y digwyddiad diogelwch data i'r ICO. Nid oes rhaid adrodd ar bob ddigwyddiad diogelwch data i'r ICO, ond mae'n rhaid i'r ysgol ddogfennu **bob** digwyddiad diogelwch data. Bydd rhaid i'r ysgol hefyd allu cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio ag adrodd i'r ICO, felly mae'n rhaid dogfennu hyn hefyd.

Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sydd i wneud y penderfyniad a oes angen adrodd ar ddigwyddiad diogelwch data i'r ICO. Bydd pob digwyddiad yn cael ei ystyried fesul achos.

Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion fydd yn hysbysu'r ICO o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data yn yr ysgol gan ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn adrodd. Efallai y bydd yn fwy priodol mewn rhai achlysuron i'r ysgol ei hun adrodd ar y digwyddiad diogelwch data, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

10.2. Darparu Gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
Efallai y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r ICO mewn rhannau os nad yw ar gael yn gychwynnol gan yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu cymaint o wybodaeth â phosib yn y man cyntaf i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac yn sicrhau bod yr wybodaeth a rennir yn gywir.

Os oes unrhyw beth yn newid o'r amser y rhoddir yr hysbysiad cychwynnol i'r ICO, bydd rhaid i'r ysgol ddiweddaru'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion cyn gynted â phosib, a bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ystyried a fydd angen diweddaru'r ICO ar y newidiadau i'r digwyddiad diogelwch data.

Bydd yr ICO angen yr wybodaeth ganlynol:

- manylion ynglŷn â beth ddigwyddodd;
- pa bryd y digwyddodd a pa bryd y daeth yr ysgol yn ymwybodol ohono;
- sut y digwyddodd;
- mesurau sydd ar waith y gall fod wedi rhwystro'r digwyddiad;
- faint o bobl y gellir eu heffeithio;
- y niwed gwirioneddol neu botensial i bobl;
- mesurau a gymerwyd i gynorthwyo'r sawl a effeithir;
- sut gall yr ysgol atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Adroddir ar ddigwyddiad diogelwch data i'r ICO dros eu llinell ffôn neu drwy eu ffurflen ar-lein. Bydd angen i ysgolion arddangos bod ei hymateb i'r digwyddiad diogelwch data yn:

- gyflym ac yn effeithiol;
- bod hawliau a rhyddid y gwrthrychau data wedi eu hamddiffyn; a
- bod yr ysgol yn cymryd camau i sicrhau nad yw'r digwyddiad aflonyddgar yn digwydd eto.

10.3. Hysbysu Unigolion
Efallai y bydd angen hysbysu'r unigolion yr effeithir arnynt heb oediad diangen os yw digwyddiad diogelwch data yn debygol o arwain at risg **uchel** i'w hawliau a'u rhyddid. Mae 'risg uchel' yn golygu bod y trothwy i hysbysu unigolion yn uwch na hynny ar gyfer hysbysu'r ICO.

Bydd yr ysgol yn ymofyn am gyngor a chefnogaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn â hysbysu unigolion am y digwyddiad diogelwch data. Bydd difrifoldeb yr effaith wirioneddol neu'r potensial o effaith ar unigolion o ganlyniad i ddigwyddiad diogelwch data a'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd yn cael ei asesu.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn hysbysu'r sawl yr effeithir arnynt heb oediad diangen, yn arbennig os oes angen lliniaru risg uniongyrchol o ddifrod iddynt. Efallai y bydd yn fwy priodol ar rai achlysuron i'r ysgol ei hun hysbysu unigolion, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Mae hysbysiad yn gyfreithiol ofynnol, ac mae'n rhaid i'r cyfathrebiad fod mewn iaith glir a phlaen. Dylid darparu'r canlynol i unigolion yr effeithir gan ddigwyddiad diogelwch data:

- disgrifiad o sut a pha bryd y digwyddodd y digwyddiad diogelwch data a pha ddata oedd yn gysylltiedig;
- disgrifiad o ganlyniadau tebygol y digwyddiad diogelwch data;

- manylion o'r hyn sydd wedi ei wneud i ymateb i'r risgiau a ddaw yn sgil y digwyddiad diogelwch data;
- cyngor penodol a chlir ar y camau y gallent gymryd i amddiffyn eu hunain a hefyd be gall yr ysgol ei wneud i'w cynorthwyo;
- enw a manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data Ysgolion; a
- ffordd y gallent gysylltu â'r ysgol am wybodaeth bellach.

Bydd unigolion hefyd yn cael y cyfle i wneud cwyn ffurfiol dan *Weithdrefn Gwynion* yr ysgol.

Mae gan yr ICO y pŵer i orfodi'r ysgol i hysbysu unigolion yr effeithir os ydynt yn ystyried bod risg uchel. Bydd yr ysgol yn dogfennu ei holl benderfyniadau ynglŷn â hysbysu unigolion.

10.4. Hysbysu Trydydd Parti
Efallai y bydd rhaid hysbysu trydydd bartïon neu asiantaethau fel rhan o'r cyfyngiant cychwynnol. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad gan amlaf yn cael ei wneud unwaith y bydd ymchwiliad wedi ei gynnal.

Rhaid hefyd ystyried a fydd angen hysbysu'r Heddlu. Byddai hyn yn briodol lle mae gweithgaredd anghyfreithlon yn wybyddus neu os tybir ei fod wedi digwydd, neu lle mae risg y bydd gweithgaredd anghyfreithlon yn digwydd yn y dyfodol.

Efallai y bydd hefyd yn briodol i hysbysu trydydd bartïon perthnasol eraill megis yswirwyr, noddwyr a chontractwyr os yn briodol.

Bydd yr ysgol yn ymofyn am gyngor a chefnogaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn â hysbysu trydydd bartïon am y digwyddiad diogelwch data.

11. Arfarniad ac Ymateb

Mae'n bwysig nid yn unig i ymchwilio i achosion y digwyddiad diogelwch data, ond hefyd i werthuso effeithiolrwydd yr ymateb iddo. Yn ogystal â hyn, gellir cwblhau adolygiad pellach o achosion y digwyddiad diogelwch data ac argymhellion ar gyfer gwelliannau dyfodol unwaith y bydd y mater wedi ei ddatrys.

Os achoswyd y digwyddiad diogelwch data gan broblemau systemig ac/neu gyfredol, yna nid yw cyfyngu'r digwyddiad diogelwch data a pharhau gyda 'busnes fel arfer' yn dderbyniol. Os adnabyddir problemau systematig neu gyfredol, mae'n rhaid llunio cynllun gweithredu i liniaru'r rhain.

Gall prosesau, gweithdrefnau, ymarferion a mesurau presennol arwain at ddigwyddiad diogelwch data arall felly bydd yr ysgol yn gwerthuso'n feirniadol ac yn adnabod lle gellir gwneud gwelliannau a newidiadau er mwyn lleihau'r risg o rywbeth tebyg yn digwydd eto. Bydd newidiadau yr argymhellir i systemau, polisïau a gweithdrefnau'n cael eu dogfennu a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosib.

Os rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r materion hyn fel rhan o'r ymchwiliad, gall ymateb i ddigwyddiad diogelwch data arwain at ddeilliannau dysgu cadarnhaol i'r ysgol.

Gall fod yn briodol i rannu adroddiad ynglŷn â rhai digwyddiadau diogelwch data penodol gyda'r corff llywodraethu ysgol. Gellir defnyddio'r adroddiad hwn i ddechrau trafodaeth â'r corff llywodraethu ysgol ynglŷn ag unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i broses, system neu bolisi o ganlyniad i ddigwyddiad diogelwch data. Mae templed *Adroddiad ar Ddigwyddiad Diogelwch Data i Gorff Llywodraethu Ysgol* ar gael ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

12. Log Digwyddiadau Diogelwch Data ac Adrodd

Mae'n rhaid i'r ysgol gadw cofnod canolog o **unrhyw** ddigwyddiadau diogelwch data a fydd yn cofrestru bob methiant i gydymffurfio drwy *Log Digwyddiadau Diogelwch Data*. Bydd yr ysgol yn cofnodi pob digwyddiad diogelwch data, waeth a ydynt angen eu hadrodd i'r ICO ai pheidio. Bydd y *Log Digwyddiadau Diogelwch Data* yn cofnodi'r ffeithiau sydd ynghlwm â'r digwyddiad; ei effeithiau a'r camau adfer sydd wedi eu cymryd. Bydd dogfennu'r holl fanylion yn cynorthwyo'r ysgol i gydymffurfio ag egwyddor atebolrwydd yr *UK GDPR.*

Bydd y Pennaeth yn adrodd ar y nifer o ddigwyddiadau diogelwch data sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol i'r corff llywodraethu a hefyd i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn flynyddol. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cadw *Log Digwyddiadau Diogelwch Data* cyffredinol ar gyfer pob ysgol.

Bydd ffigyrau hefyd yn ffurfio rhan o ffigyrau cyfunol ar gyfer ysgolion yn adroddiad sicrwydd llywodraethu gwybodaeth blynyddol y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a gyflwynir i'r Uwch Dîm Rheoli ac i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae templed o'r *Log Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion* ar gael ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

13. Methiant i Hysbysu

Mae'n rhaid i'r holl staff fod yn agored ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiad diogelwch data fel y gall yr ysgol sicrhau ei bod yn ymddwyn yn gyfrifol; yn cefnogi aelodau o staff ac yn delio â'r digwyddiad cyn gynted â phosib a mor effeithiol â phosib.

Drwy beidio ag adrodd ar ddigwyddiad diogelwch data y dylai fod wedi cael ei adrodd i'r ICO, gall fod canlyniadau i'r ysgol ac i'r aelod unigol o staff.

Wrth i ysgol fethu â hysbysu yr ICO ac/neu wrthrych data bod digwyddiad diogelwch data wedi bod, bydd yr ICO yn ystyried yr holl fesurau cywirol y gallent eu gosod sydd yn ddirwyon gweinyddol yn ogystal â, neu'n hytrach na'r pwerau cywirol.

Mae'r dirwyon gweinyddol yn disgyn i strwythur dwy haen, sy'n golygu y gellir rhoi dirwy lefel is i sefydliad, neu ddirwy lefel uwch, yn dibynnu ar natur y digwyddiad:

- gellir rhoi dirwy haen is o €10 miliwn (neu gyfwerth mewn punnoedd) neu 2% o'r trosiant blynyddol byd-eang ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (pa bynnag un yw'r mwyaf) am fethu â hysbysu'r ICO neu unigolion o ddigwyddiadau;

- bydd dirwy haen uwch o €20 miliwn (neu gyfwerth mewn punnoedd) neu 4% o'r trosiad blynyddol byd-eang ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (pa bynnag un yw'r mwyaf) am dorri unrhyw rai o'r egwyddorion prosesu data.

Mae pwerau cywirol yn cynnwys y gallu i roi rhybuddion neu geryddon; rhoi gorchmynion i reolwyr a phrosesyddion i gydymffurfio â cheisiadau gwrthrych data a rhoi gorchymyn i reolwr i gyfathrebu digwyddiad diogelwch data personol yn uniongyrchol i'r gwrthrych data.

Wrth benderfynu ar ba lefel o ddirwy i roi, bydd yr ICO yn ystyried ffactorau megis:

- **natur, difrifoldeb** a **hyd** y digwyddiad;
- y nifer o wrthrychau data a effeithir arnynt, a'r lefel o ddifrod a ddioddefir ganddynt;
- p'run ai oedd yr ysgol yn torri'r *UK GDPR* yn **fwriadol**, ynteu a oedd yn **esgeulus** o'i rhwymedigaethau dan yr *UK GDPR*;
- **graddfa'r cydymffurfiad** â'r ICO; a'r
- **categorïau o ddata** a gynhwysir.

14. Torri'r Polisi

Gall diffyg cydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff ysgol arwain ar ganlyniadau difrifol i'r ysgol, yr aelod unigol o staff a'r Cyngor.

Mae'n bwysig i'r holl aelodau o staff chwarae eu rhan mewn adrodd ar ddigwyddiad. Gall methu â glynu at y polisi hwn neu anwybyddu digwyddiad diogelwch data posib arwain at gamau disgyblaethol. Eir i'r afael â hyn drwy'r broses ddisgyblu berthnasol a chymalau cytundebol trydydd parti (fel sy'n berthnasol).

Os yw'r digwyddiad diogelwch data yn gofyn am ymchwiliad disgyblaethol, bydd y Pennaeth yn llythyru ag Adnoddau Dynol am gyngor ac arweiniad.

15. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion bob dwy flynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, canllawiau neu gyngor gan y comisiynydd neu wendidau newydd sy'n gofyn am adolygu'r polisi ynghynt.

Bydd y polisi'n cael ei gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli Dysgu ac yn cael ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd cydymffurfiad â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm yn cael eu monitro gan Dîm Arweinyddol a chorff llywodraethu'r ysgol.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon ynglŷn ag unrhyw beth yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb oediad.

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Swyddfeydd y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau diogelwch data ar wefan yr ICO: https://ico.org.uk/

Content **Page**

1. Policy Statement

